




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio

Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon
i Gymru



Dyma ddogfen **Hawdd ei Deall** gan
Lywodraeth Cymru

Beth yw Hawdd ei Deall?

Dyma fersiwn hawdd ei deall o'n Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.

Ond efallai y bydd angen help arnoch o hyd i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Cyflwyniad

Beth yw Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon?



Sbwriel yw pan fydd rhywun yn taflu ei sbwriel, fel deunydd lapio bwyd neu boteli diod ar y llawr neu'n ei adael yn rhywle tebyg i fainc yn y parc, yn lle ei roi mewn bin.



Tipio anghyfreithlon yw pan fydd rhywun yn dympio rhywbeth mwy, fel sofffa neu fag du sy'n llawn sbwriel.

Pam y mae Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn ddrwg?

Mae gollwng sbwriel neu dipio anghyfreithlon yn torri'r gyfraith.



Pan fydd pobl yn taflu sbwriel neu'n tipio'n anghyfreithlon mae'n gwneud lleoedd yn frwnt ac yn anniben. Mae hefyd yn gwneud i bobl deimlo'n anhapus am y lleoedd y maent yn byw ynddynt neu'n ymweld â nhw ar wyliau.



Mae sbwriel yn gallu niweidio bywyd gwyllt ac anifeiliaid anwes os oes cemegau gwenwynig neu bethe miniog ynddo.


Gall fynd i lawr draeniau a chael ei olchi i afonydd, gan fynd i'r môr neu'r traethau yn y pen draw.





Mae'n rhaid i bobl lanhau'r sbwriel ac nid yw hynny'n beth dymunol ac mae'n costio llawer o arian i'w wneud.

Mae'n well i sbwriel gael ei ailgylchu yn hytrach na chael ei daflu neu ei ddympio. Fel hyn, rydyn ni'n sicrhau bod deunyddiau yn dal i gael eu defnyddio ac mae'n osgoi gwastraffu pethau.



Yr hyn yr ydym am ei wneud

Mae'n bosibl gweld sbwriel a thipio anghyfreithlon ym mhobman.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun i stopio hyn.

I wneud hyn rydym am i bawb weithio gyda'i gilydd – o'r bobl sy'n gwneud pethau sy'n cael eu taflu, i'r rhai sy'n dymuno helpu ei stopio.



Sut y gallwch chi helpu?

Rydym am i bawb helpu i stopio taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru.

Hoffem glywed eich barn am ein cynllun ac a ydych chi'n credu y bydd yn helpu?

Hoffem hefyd glywed am unrhyw syniadau eraill sydd gennych i'w stopio rhag digwydd yn y lle cyntaf?



Beth sydd yn ein Cynllun?

Mae 5 syniad yn ein Cynllun, a fydd, yn ein barn ni, yn stopio sbwriel a thipio anghyfreithlon:

Syniad 1 – Helpu pawb i stopio creu cymaint o sbwriel

Pan fyddwn yn bwyta ac yn yfed pethau, yn aml mae gennym sbwriel ar ôl sydd angen ei roi mewn bin.



Mae llawer o bethau'n cael eu gwneud i'w defnyddio unwaith, ac yna maen nhw'n troi'n sbwriel. Mae'n well inni ddefnyddio pethau sawl gwaith fel nad oes angen iddynt gael eu taflu.



Neu os ydynt yn troi'n sbwriel – dylem eu hailgylchu i wneud pethau newydd. Mae hyn yn well i'r amgylchedd.

Rydyn ni'n dymuno stopio gymaint o bethau rhag cael eu taflu, yn enwedig plastig, gan fod hyn yn gwastraffu adnoddau ac yn achosi sbwriel.



Rydyn ni'n bwriadu gwneud hyn drwy gydweithio â busnesau fel eu bod yn creu llai o ddeunydd pacio, helpu pobl i atgyweirio neu aildefnyddio eu heitemau, ac yn caniatáu i bobl gael eu harian yn ôl pan fyddant yn dychwelyd eu caniau a'u poteli diodydd.

Drwy sicrhau bob pawb yn creu llai o sbwriel bydd llai o sbwriel ar hyd y lle a bydd llai o dipio anghyfreithlon ar ein strydoedd, ac yn ein parciau a'n cefn gwlad.

Syniad 2 – Darganfod lle mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn digwydd



Mae'n bwysig darganfod lle mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn digwydd yng Nghymru.

Rydyn ni'n credu y bydd darganfod y swm yn ein helpu i weld lle y mae'r manau gwaethaf a rhoi cynnig ar syniadau newydd, fel defnyddio technoleg, i helpu i'w stopio.

Bydd dod o hyd i'r pethau hyn hefyd yn ein helpu i weld a yw ein Cynllun yn gweithio.

Syniad 3 – Helpu pobl i wybod ei bod yn anghywir taflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon



Yr ydym am helpu pawb i wybod bod gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon yn anghywir a helpu pobl i gael gwared ar eu sbwriel yn y ffordd gywir.

Mae'n gwneud y lleoedd rydyn ni'n byw ynddynt ac yn ymweld â nhw yn frwnt, ac mae'n gallu niweidio bywyd gwyllt ac anifeiliaid anwes.

Mae'n costio llawer o arian i'w lanhau.



Rydyn ni am wneud hyn drwy gael hysbysebion a phosteri i bobl eu gweld neu eu clywed.

Rydyn ni hefyd am gydweithio â phobl ifanc, busnesau a Chynghorau i ddod o hyd i ffyrdd o stopio sbwriel o amgylch ysgolion, siopau a lleoedd eraill.



Rydyn ni'n bwriadu edrych ar ffyrdd o stopio pobl rhag fflysio pethau fel clytiau gwlyb i lawr y toiled, fel nad ydynt yn cyrraedd y môr yn y pen draw.



Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn dweud wrth bawb bod taflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon yn beth gwael ac yn eu helpu i wneud y penderfyniadau cywir wrth gael gwared ar eu sbwriel.

Syniad 4 – Beth ddylai ddigwydd i bobl sy'n taflu sbwriel ac yn tipio'n anghyfreithlon?



Mae taflu sbwriel neu dipio'n anghyfreithlon yn erbyn y gyfraith.

Os yw rhywun yn cael ei ddal yn taflu sbwriel neu'n tipio'n anghyfreithlon gallant gael dirwy, neu os ydynt yn tipio llawer iawn o sbwriel yn anghyfreithlon gallant fynd i'r carchar.

Os yw pobl yn cael eu dal yn taflu sbwriel ac yn tipio'n anghyfreithlon, rydyn ni am sicrhau eu bod yn cael eu cosbi.



Rydyn ni'n dymuno helpu pobl i gael gwared ar eu sbwriel yn y ffordd gywir a pheidio â thafu sbwriel neu dipio'n anghyfreithlon fel nad ydyn nhw'n cael dirwy neu'n mynd i'r carchar.

Syniad 5 – Pethau y gallwn ni eu gwneud i stopio sbwriel a thipio anghyfreithlon




Mae pobl yn aml yn dweud eu bod yn taflu sbwriel neu'n tipio'n anghyfreithlon oherwydd bod sbwriel yno eisoes.

Weithiau mae pobl yn dweud eu bod yn taflu sbwriel am nad oeddent yn gallu dod o hyd i fin neu oherwydd bod y bin yn llawn.

Mae pobl hefyd yn dweud ei bod yn anodd iddyn nhw ddod o hyd i'r ffordd briodol o gael gwared â'u sbwriel. Felly, maen nhw'n ei dipio'n anghyfreithlon.



Rydyn ni am ei gwneud hi'n haws i bobl wneud y peth iawn wrth gael gwared â'u sbwriel a helpu'r bobl sy'n ei gasglu.



Sut i ymateb

Ysgrifennwch eich atebion i'n cwestiynau yn y ffurflen ymateb hawdd ei darllen isod.

Neu anfonwch eich sylwadau a'ch syniadau mewn e-bost i:

LEQ@llyw.cymru

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael.

Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth:



Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **EQR@llyw.cymru /**
EQR@gov.wales



Ffôn: 0300 0604400

Hefyd ar gael yn Saesneg yn:
**gov.wales/litter-and-fly-tipping-
prevention-plan-wales**

Llenwch y manylion isod i mewn a'u dychwelyd gyda'r Cwestiynau.

Enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Math o sefydliad:

E-bost:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad:

Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl y bydd ein Cynllun yn helpu i atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Bydd

Na fydd

Ddim yn gwybod

Rhowch fwy o fanylion yma os oes angen.

A oes gennych unrhyw syniadau eraill ar gyfer atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru

Rhowch fwy o fanylion yma.